

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Swyddfa'r UE

Materion Ewropeaidd

Rhifyn 32 - Haf 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:

Cyfathrebu'r Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ar-lein: www.cynulliad.cymru
E-bost: Cysylltu@cynulliad.cymru
Ffôn: **0300 200 6565**

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cyflwyniad



Y Fonesig Rosemary Butler AC
Y Llywydd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno rhifyn 32 o'n cylchlythyr, Materion Ewrop, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â materion Ewropeaidd.

Mae'r ffaith bod Llywodraeth newydd y DU wedi galw refferendwm ar Ewrop yn golygu bod Ewrop yn bendant ar yr agenda. Mae'n fwriad gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, o dan gadeiryddiaeth David Melding AC, fy Nirprwy, ystyried hyn yn yr hydref.

Byddaf yn annog ymgysylltiad cryf o ran y Cynulliad yn y trafodaethau hyn. Rhaid inni sicrhau bod y ddatl yn un wybodus, ein bod yn deall yr hyn y mae'r UE yn ei olygu i Gymru a sut mae'n effeithio ar ein bywydau mewn cynifer o feysydd, y datganolwyd llawer ohonynt i'r Cynulliad. Hyderaf y bydd Llywodraeth y DU, yn ei drafodaethau ar ddiwygio'r UE, yn cadw mewn cof gyfrifoldebau'r Cynulliad a deddfwrfeydd a Seneddau datganoledig eraill y DU.

Ym mis Mai, croesewais bedwar ASE Cymru i'r Cynulliad i gyfarfod â Chadeiryddion Pwyllgorau a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau er mwyn trafod y modd y mae'r Cynulliad yn ymgysylltu â'r UE a'r modd yr ydym gweithio gyda'n cynrychiolwyr ym Mrwsel.

Ym mis Mehefin, ymwelodd tri o Bwyllgorau'r Cynulliad â Brwsel, gydag un o'r tri hefyd yn mynd i Lwcsembwrg i gwrdd â swyddogion ym Manc Buddsoddi Ewrop. Cawsant gyfarfodydd cynhyrchiol ag ASEau, swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd, cynrychiolwyr UKREP, a lluo o rwydweithiau'r UE a chynrychiolwyr cyrff sydd ym Mrwsel. Ymddangosodd y ddirprwyaeth o'n Pwyllgor Deisebau ni ar agenda ffurfiol Pwyllgor Deisebau Senedd Ewrop. Ar 20 Gorffennaf yn Sioe Frenhinol Cymru, bydd aelodau o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn cyfarfod â Phil Hogan, Comisiynydd Amaethyddiaeth yr UE a fydd yno ar ymweliad swyddogol.

Ym mis Mawrth, gwahoddwyd David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, i ddigwyddiad i randdeiliaid yn Llundain er mwyn trafod yr adroddiad a gyhoeddwyd gan ei Bwyllgor ar sylweddau seicoweithredol newydd â'r rapporteur arweiniol o ASE a swyddogion Llywodraeth y DU. Lansiodd y Pwyllgor Menter a Busnes ymchwiliad newydd i botensial yr economi forol, sydd wedi cael sylw mawr yn y newyddion yng Nghymru yn dilyn cyhoeddiadau am fôr-lynnoedd llanw. Mae'r ymchwiliad hefyd yn ategu adroddiad rhag blaen Rhodri Glyn Thomas ar Ddatblygu Potensial Ynni'r

Cefnforoedd, a ymgwymerwyd ganddo yn rhinwedd ei rôl fel cynrychiolydd Pwyllgor y Rhanbarthau (CoR). Mae Mick Antoniw AC hefyd yn weithgar ar Bwyllgor y Rhanbarthau, gyda barn rhag blaen ar gyflogau byw, a'i waith parhaus ar yr argyfwng yn yr Wcráin.

Rydym wedi croesawu nifer o urddasolion a phwysigolion i'r Cynulliad. Pleser neilltuol i mi yn niwedd mis Gorffennaf oedd cynnal cyfarfod Grŵp Cydraddoldeb Rhywiol CALRE - y Cynulliad sy'n cadeirio'r grŵp.

Pynciau sy'n ymwneud â'r UE ym mhwyllgorau'r Cynulliad

Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Gan y bydd cymaint o ddeddfwriaeth o Gymru yn mynd ag amser y Pwyllgor tan yr etholiad, mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu dull gweithredu newydd ar gyfer ei waith Ewropeaidd. Bydd yn dilyn hynt cynigion yn yr UE sydd o ddi-ddordeb i'r Pwyllgor ac yn ceisio dylanwadu arnynt drwy ymgynghori'n ysgrifenedig a thrwy ymgysylltu'n anffurfiol â rhanddeiliaid. Lle y nodir unrhyw faterion ar gyfer Cymru, fe'u dilynir drwy gyfathrebu ysgrifenedig â sefydliadau'r UE a Llywodraeth Cymru. Mae rhai o feysydd allweddol yr UE sydd o ddi-ddordeb i'r Pwyllgor isod. Mae rhestr lawn ar wefan y Pwyllgor. Ymwelodd y Pwyllgor â Brwsel ar 3 a 4 Mehefin i drafod ei feysydd blaenoriaeth â rhanddeiliaid allweddol yr UE.

- **Ymchwiliad i gynhyrchu organig a labelu cynhyrchion organig:** Roedd yr ymchwiliad yn ymwneud â'r effeithiau posibl ar Gymru o gynigion y Comisiwn Ewropeaidd i greu Rheoliad ar gyfer cynhyrchu organig a labelu cynhyrchion organig a'r cynigion a gyhoeddwyd yn 2014. Mae'r ymchwiliad yn: ystyried effeithiau posibl y cynigion ar y sector organig yng Nghymru; ystyried yr argymhellion ar gyfer y newidiadau i'r cynigion cyfreithiol a gyhoeddwyd; gweithredu fel fforwm ar gyfer rhanddeiliaid yng Nghymru i gymryd rhan yn y drafodaeth ar ddyfodol cynhyrchu organig yn yr UE. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth lafar ar 13 Tachwedd, ac mae wedi ysgrifennu at y Comisiynydd Amaethyddiaeth, Cadeirydd Pwyllgor Amaethyddiaeth Senedd Ewrop ac ASEau o Gymru yn amlinellu ei brif gynigion ar gyfer newidiadau i destun y rheoliad drafft. Bydd yn parhau i ddilyn gwaith Senedd Ewrop, ac yn ymateb iddo, ynghylch rheoleiddio cynnyrch organig yn nhymor yr haf yn y Cynulliad.
- **Polisi morol a physgodfeydd:** Mae'r Pwyllgor wedi parhau i adolygu polisi morol a physgodfeydd Llywodraeth Cymru, gan gynnwys darparu Cyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yng Nghymru. Cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth ar 26 Chwefror.
- **Tyfu cnydau a addaswyd yn enetig (GMO):** Yn dilyn cytundeb Cyngor yr Undeb Ewropeaidd (y Cyngor) ar safbwynt negodi ynghylch cynigion i ddiwygio'r broses awdurdodi ar gyfer tyfu cnydau GMO, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwnau briffio ffeithiol gyda Llywodraeth Cymru a swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch cynnwys y diwygiadau arfaethedig. Bwriad y Pwyllgor yw parhau i fonitro a dilyn hynt y trafodaethau ar y cynnig hwn. Mae hwn yn un o'r materion a drafodwyd yn y Pwyllgor yn ystod ei ymweliad â Brwsel ar 3 a 4 Mehefin.

- **Gwahardd rhydi drifft:** Ar ôl i'r Comisiwn Ewropeaidd gyhoeddi rheoliad i atal y gwaharddiad ar rwydi drifft, ysgrifennodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd at Lywodraeth Cymru i egluro ei ymateb i'r cynigion. Mae'r Pwyllgor wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid o Gymru ynghylch eu barn ar y cynigion a'r argymhellion ar gyfer gwelliannau. Ym mis Chwefror, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Comisiynydd Pysgodfeydd, Cadeirydd Pwyllgor Pysgodfeydd Senedd Ewrop a'r ASEau o Gymru, yn nodi pryderon rhanddeiliaid yng Nghymru ac yn awgrymu gwelliannau i'r gwaharddiad. Gellir gweld gohebiaeth gan y Comisiwn mewn perthynas â phryderon y Pwyllgor ynghylch y cynigion hyn ar wefan y Pwyllgor. Trafododd y Pwyllgor y mater hwn yn ystod ei ymweliad â Brwsel ar 3 a 4 Mehefin.
- **Polisi Amaethyddol Cyffredin—Newidiadau i Gynllun y Taliad Sylfaenol:** Ar 11 Chwefror, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd am Newidiadau i Gynllun y Taliad Sylfaenol. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn cymryd tystiolaeth gyda rhanddeiliaid amaethyddol i drafod y mater hwn, y rheoleiddiad cynhyrchu organig, GMO, y Cynllun Datblygu Gwledig, a'r rheoliadau adnabod electronig ar 30 Ebrill. Defnyddiwyd y dystiolaeth a gafwyd yn y sesiwn i graffu ar waith y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd o ran cynnydd yn y materion hyn ar 20 Mai.

Y Pwyllgor Menter a Busnes

- **Ymchwiliadau i (i) Helpu Pobl Ifanc i Gael Gwaith; (ii) Cyfleoedd cyflogaeth i bobl dros 50 oed; (iii) Twristiaeth:** Er i'r tri ymchwiliad hyn ganolbwyntio yn bennaf ar gamau gweithredu yng Nghymru a'r DU, mae pob ymchwiliad yn ystyried effaith a gwerth am arian cyllid Ewropeaidd. Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar yr ymchwiliad i Helpu Pobl Ifanc i Gael Gwaith ar 19 Mawrth ac fe'i nodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Mai. Disgwylir mai yn yr haf y cyhoeddir yr adroddiad ar yr ymchwiliad i Gyfleoedd cyflogaeth i bobl dros 50 oed. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar Dwristiaeth ym mis Tachwedd, ac fe'i nodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Ionawr.
- **Sesiwn graffu'r UE:** cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gyda'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar 21 Ionawr, gan ganolbwyntio ar baratodau Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol newydd ar gyfer 2014-2020, ac fel gwaith dilynol i ymchwiliadau'r Pwyllgor i Horizon 2020 a Chyfleoedd Cyllido'r UE rhwng 2014 a 2020. Yn ogystal, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn ddiweddar gyda David Hughes, Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru, a Swyddfa'r Undeb Ewropeaidd yn y Cynulliad, gan ganolbwyntio'n benodol ar Raglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2015 a blaenoriaethau'r Comisiwn Ewropeaidd newydd. Ar 19 Mawrth, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gyda swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch y Cynllun Buddsoddi Strategol ac ynghylch fuddsoddi yn Economi Forol Cymru
- **Yr Economi Forol:** mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad newydd i botensial yr economi forol yng Nghymru, gan gynnwys datblygu Ynni Cefnforoedd. Mae'r ymchwiliad hefyd yn ystyried cyfleoedd i Gymru yng "Nghynllun Buddsoddi Juncker" a ffynonellau posibl eraill o gyllid. Ym mis Mawrth, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn wybodaeth gyda swyddogion o DG Materion Morol. Yn ogystal, ar 9 Gorffennaf, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth yng ngogledd Cymru gyda phorthladdoedd Cymru, Parc Gwyddoniaeth Menai a Phrifysgol Bangor, gyda sesiynau tystiolaeth pellach ar y gweill ar gyfer yr hydref. Hefyd, casglodd y Pwyllgor wybodaeth gefndirol yn ystod ei ymweliad â Brwsel/Lwcsembwrg (rhagor isod).

- **ASEau Cymru:** Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn diweddar breifat gyda'r ASEau Cymru ym mis Mawrth drwy gynhadledd fideo â Brwsel i drafod ystod o faterion yr UE, gan gynnwys y Cynllun Buddsoddi Juncker, TTIP (trafodaethau masnach rhwng yr UE ac UDA), a'r argyfwng yng Ngwlad Groeg.
- **Yr ymweliad â Brwsel/Lwcsembwrg:** ar ddiwedd mis Mehefin, aeth y Pwyllgor i Frwsel ar gyfer cyfarfodydd ag uwch-swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd, Llywodraeth y DU, a rhai o ASEau Cymru. Hefyd, ymwelodd y Pwyllgor â phencadlys Banc Buddsoddi Ewrop yn Lwcsembwrg ar gyfer cyfarfodydd â swyddogion i drafod cyfleoedd ar gyfer buddsoddiadau yng Nghymru, gan gynnwys rhai o dan Gynllun Buddsoddi Juncker.

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- **Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd:** Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth a gwaith ymgysylltu yn ystod hydref a gaeaf 2014. Roedd cylch gorchwyl yr ymchwiliad hwn yn cynnwys ystyried tystiolaeth ryngwladol ar y ffordd y mae gwledydd eraill yn ymdrin â Sylweddau Seicoweithredol Newydd (SSN). Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth ar ddeddfwriaeth ddrafft y mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn ei llunio i reoleiddio SSN ar lefel yr UE (yn ychwanegol at reoliad cyfyngedig cyfredol yr UE). Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2015, mynegodd swyddogion y Swyddfa Gartref amheuan Llywodraeth y DU am ddull arfaethedig y Comisiwn Ewropeaidd. Cyflwynodd y Pwyllgor ei adroddiad ym mis Mawrth 2015, ac mae un o'r 14 o argymhellion sydd ynddo yn galw ar i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU, a gweinyddiaethau datganoledig eraill, er mwyn sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn yr holl drafodaethau yn y dyfodol ar gynigion y Comisiwn Ewropeaidd o ran SSN. Nodwyd yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Mai. Ar 30 Mawrth, cymerodd Cadeirydd y Pwyllgor ran mewn sesiwn i randdeiliaid gyda rapporteur Senedd Ewrop ar SSN yn swyddfa'r DU Senedd Ewrop yn Llundain.

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

- **Ymchwiliad i ganlyniadau addysgol plant o gartrefi incwm isel:** Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth yn hydref 2013, ac ymgymerodd â gwaith yn 2014 a fu'n canolbwyntio ar bwysigrwydd ymgysylltiad rhieni. Daethpwyd â'r ymchwiliad i ben gyda sesiwn tystiolaeth gyda'r Gweinidog ym mis Rhagfyr 2014. Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ym mis Chwefror 2015. Nodwyd yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Mai.

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

- **Adroddiad ar Sybsidiaredd:** Cafodd yr adroddiad monitro ar faterion sybsidiaredd sy'n berthnasol i Gymru sy'n deillio o gynigion deddfwriaethol drafft yr UE, ar gyfer y cyfnod o fis Mai i fis Rhagfyr 2014, ei nodi ar 12 Ionawr. Nodwyd yr adroddiad ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr a Mai yn y cyfarfod ar 15 Mehefin.
- **Refferendwm ar yr UE:** Yn ei gyfarfod ar 15 Mehefin, ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth gan y Comisiwn Etholiadol a oedd yn galw am sylwadau ar eiriad arfaethedig cwestiwn y refferendwm ym Mil Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd, a gyflwynwyd yn Nhŷr Cyffredin ar ddydd Iau 28 Mai.

- **Cynnig ar gyfer Rheoliad Ewropeaidd ar organebau a addaswyd yn enetig:** Ar 22 Mehefin, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn a oedd disgwyl i wneud penderfyniadau ar y defnydd o fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig yng Nghymru o dan Gyfarwyddeb arfaethedig yr UE

Y Pwyllgor Deisebau

Pwyllgor Deisebau Senedd Ewrop: cymerodd Cadeirydd William Powell AC a Joyce Watson AC ran mewn gwrandawriad cyhoeddus ar yr Hawl i Ddeisebu a gynhaliwyd gan Bwyllgor Deisebau Senedd Ewrop ym mis Mehefin, yn ogystal â chymryd rhan mewn rhan o gyfarfod y Pwyllgor Deisebau. Bydd yr ymweliad hwn yn helpu i lywio myfyrdodau y Pwyllgor ar y ffordd yr ymdrinnir â deisebau yn y Cynulliad ar hyn o bryd.

Busnes y Cyfarfod Llawn gyda sesiynau penodol ar faterion Ewropeaidd

- 21 Ionawr: nododd y Cynulliad adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei ymchwiliad i Dwristiaeth.
- 21 Ionawr: dadl fer ar Y Diwydiant Ffermio - y gostyngiad yn y prisiau delir i ffermwyr am laeth; ansicrwydd ynglŷn â thaliadau sylfaenol yn dilyn her farnwrol; a'r aelod-wladwriaethau sy'n cymryd yn ôl bwerau awdurdodi cnydau GM oddi ar yr UE.
- 25 Chwefror: nododd y Cynulliad adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei ymchwiliad i Fynediad at Dechnolegau Meddygol yng Nghymru.
- 24 Mawrth: cafwyd datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, gyda dadl yn dilyn, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu o adroddiadau'r Pwyllgor Menter a Busnes - y cynnydd o ran argymhellion yn adroddiadau'r Pwyllgor Menter a Busnes ar ymagwedd Llywodraeth Cymru at fasnach a buddsoddiad mewnol, entrepreneuriaeth ieuenctid a chysylltedd rhyngwladol drwy borthladdoedd a meysydd awyr Cymru.
- 24 Mawrth: cafwyd datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, gyda dadl yn dilyn, ar gryfhau polisi caffael.
- 24 Mawrth: cafwyd datganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, gyda dadl yn dilyn, ar yr adolygiad o'r diwydiant llaeth.
- 5 Mai: Gofynnodd Llyr Gruffydd AC Gwestiwn Brys ar Gynllun y Taliad Sylfaenol.
- 13 Mai: nododd y Cynulliad adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol.
- 19 Mai: cafwyd datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, gyda dadl yn dilyn, ar Lysgenhadon Cyllid yr UE.
- 20 Mai: nododd y Cynulliad adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ei ymchwiliad i ganlyniadau addysgol plant o gartrefi incwm isel.
- 20 Mai: nododd y Cynulliad adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei ymchwiliad i helpu pobl ifanc i gael gwaith.
- 2 Mehefin: cafwyd datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, gyda dadl yn dilyn, ar ffurf adroddiad cynnydd ar Gronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer 2014-20.

- 23 Mehefin: cafwyd datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, gyda dadl yn dilyn, ar Waith y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd i Fynd i'r Afael Tlodi.
- 7 Gorffennaf: gafwyd datganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, gyda dadl yn dilyn, ar Gynllun Taliad Sylfaenol y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Noder: yn ogystal â'r uchod, mae materion Ewropeaidd yn codi'n aml yn natganiadau'r Gweinidogion ac mewn cwestiynau i Weinidogion.

Gweithgareddau allanol Aelodau ar fusnes y Cynulliad

- 19 Ionawr - Bu Lindsay Whittle AC yn cynrychioli'r Cynulliad yng nghyfarfod Pwyllgor Materion Economaidd y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig ar gyfer ei ymchwiliad presennol i *'Ddiweithdra ymhlith Pobl Ifanc'* ym Melffast.
- 4-6 Chwefror - Cynhaliwyd Ail Gynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad, Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir (BIMR) Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA). Cangen Gibraltar a gynhaliodd y Gynhadledd, a chynrychiolwyd CPA Cymru gan Gadeirydd y Gangen ac Aelod o Bwyllgor Llywio Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR Joyce Watson AC, gyda Jenny Rathbone AC ac Ann Jones AC hefyd yn bresennol. Thema'r gynhadledd oedd *"Rhoi Terfyn ar Drais yn erbyn Menywod"*
- 11-13 Chwefror: Roedd Mick Antoniw AC yn bresennol yng nghyfarfod llawn cyntaf mandad newydd Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel
- 22 - 24 Chwefror - aeth David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, William Powell AC, Joyce Watson AC, Lindsay Whittle AC a Darren Millar AC i 50fed Cyfarfod Llawn y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig a gynhaliwyd yn Nulyn. Canolbwyntiodd y Cyfarfod Llawn ar y thema *'Chwaraeon o ran hyrwyddo datblygiad diwylliannol a chymunedol'*
- 2 Mawrth: Aeth Rhodri Glyn Thomas AC i Frwsel ar gyfer cyfarfod Pwyllgor y Rhanbarthau.
- 5 Mawrth: Siaradodd David Melding AC, y Dirprwy Lywydd mewn cynhadledd ar rôl Seneddau Cenedlaethol yn yr UE. Trefnwyd y gynhadledd gan Brifysgol Sapina Roma, ac fe'i cynhaliwyd yn Siambr y Dirprwyon yn Senedd yr Eidal yn Rhufain.
- 13 - 16 Ebrill - Arweiniodd David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, ddirprwyaeth, gyda Chomisynwyr y Cynulliad Sandy Mewies AC, Rhodri Glyn Thomas AC a Peter Black AC, i Bosnia-Herzegovina. Roedd yr ymweliad yn rhan o'r rhaglen addysg *"Gwersi o Srebrenica"* i nodi 20 mlynedd ers yr hil-laddiad yn Srebrenica.
- 20 Ebrill: Roedd Rhodri Glyn Thomas AC ym Mrwsel fel rhan o'r gwaith casglu tystiolaeth ar gyfer ei adroddiad rhag blaen ar gyfer Pwyllgor y Rhanbarthau ar Ddatblygu Potensial Ynni'r Cefnforoedd.
- 4-5 Mai: Roedd Rhodri Glyn Thomas AC ym Mrwsel fel rhan o'r gwaith casglu tystiolaeth ar gyfer ei adroddiad rhag blaen ar Ddatblygu Potensial Ynni'r Cefnforoedd ar gyfer cyfarfod Pwyllgor y Rhanbarthau gyda rhanddeiliaid ym Mrwsel, swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd a rhwydweithiau fel Ocean Energy Europe.
- 22 Mai: Ymwelodd Rhodri Glyn Thomas AC â Phencadlys Banc Buddsoddi Ewrop yn Lwcsembwrg fel rhan o'r gwaith o gasglu tystiolaeth ar gyfer ei adroddiad rhag blaen ar Ddatblygu Potensial Ynni'r Cefnforoedd ar gyfer Pwyllgor y Rhanbarthau.
- 22 Mai: Ymwelodd Mick Antoniw AC â Brwsel ar gyfer cyfarfod i randdeiliaid, a hynny fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer ei farn rhag blaen ar gyfer Pwyllgor y Rhanbarthau o ran Safonau mewn Cydnabyddiaeth Ariannol yn yr UE.
- 24-27 Mai: Arweiniodd David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, ddirprwyaeth, yng nghwmni Cadeirydd Cangen CPA Cymru Joyce Watson AC ac Aelodau o'r Gangen Ann Jones AC a Simon Thomas AC, i gynhadledd flynyddol Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir

- (BIMR) Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA), a gynhaliwyd eleni gan CPA Cangen Cyprus yn Limassol. Thema'r gynhadledd oedd *Seneddau yn y Wyneb Heriau Cyfoes* ac fe ganolbwyntiodd ar y themâu Diweithdra leuenctid ac Atebolrwydd Seneddol.
- 27 Mai: Roedd Mick Antoniw AC ym Mrwsel ar gyfer cyfarfod Pwyllgor y Rhanbarthau.
 - 3-4 Mehefin: ymwelodd aelodau'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd â Brwsel ar gyfer cyfres o gyfarfodydd ag: ASE Cymru Dr Kay Swinburne, ASE yr Alban Dr Ian Duncan, Cyfarwyddwr Cyffredinol DG Materion Morol Lowri Evans, Tom Tynan o Gabinet Comisynydd yr UE dros Amaethyddiaeth Phil Hogan, a swyddogion o UKREP, DG yr Amgylchedd, Banc Buddsoddi Ewrop, NFU Brwsel, AGRA FACTS, Cyfeillion y Ddaear a'r RSPB.
 - 3-4 Mehefin: Roedd Rhodri Glyn Thomas AC ym Mrwsel ar gyfer cyfarfod llawn Pwyllgor y Rhanbarthau.
 - 21-22 Mehefin: Ymwelodd William Powell AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau, a Joyce Watson AC â Phwyllgor Deisebau Senedd Ewrop i gymryd rhan mewn gwrandawriad ar yr Hawl i Ddeisebu.
 - 24-26 Mehefin: aeth aelodau'r Pwyllgor Menter a Busnes i Frwsel a Lwcsembwrg ar gyfer cyfres o gyfarfodydd. Ym Mrwsel, cyfarfuant â dau ASE o Gymru, sef Derek Vaughan a Jill Evans, ac â Miguel Gil-Tertre o Gabinet Jyrki Katainen, y Comisynydd ar gyfer Swyddi, Twf, Buddsoddi a Chystadleurwydd yr UE, ac ag uwch-swyddogion o UKREP, Ocean Energy Europe, a Chynrychiolydd Parhaol Iwerddon. Yn Lwcsembwrg, cawsant gyfres o gyfarfodydd gyda swyddogion Banc Buddsoddi Ewrop ym mhencadlys y banc.
 - 24 Mehefin: Yn rhinwedd ei swydd fel cynrychiolydd CoR, cadeiriodd Mick Antoniw AC sesiwn banel mewn cynhadledd yr UE ar asbestos
 - 25 Mehefin: Cyflwynodd Mick Antoniw AC ei adroddiad rhag blaen ar Safonau mewn Cydnabyddiaeth Ariannol yn yr UE i gyfarfod Comisiwn SEDEC ym Mhwyllgor y Rhanbarthau.
 - 30 Mehefin: Cyflwynodd Rhodri Glyn Thomas AC ei adroddiad rhag blaen ar Ddatblygu Potensial Ynni'r Cefnforoedd i gyfarfod y Comisiwn ENVE ym Mhwyllgor y Rhanbarthau.
 - 7-9 Gorffennaf: Roedd Mick Antoniw AC ym Mrwsel ar gyfer cyfarfod llawn Pwyllgor y Rhanbarthau.

Ymweliadau rhyngwladol ac ymweliadau gan bwysigion eraill â'r Senedd

- 2-3 Chwefror: croesawodd y Cynulliad ddirprwyaeth fechan o Senedd Fiji fel rhan o raglen a gydluniwyd gan Raglen Datblygu'r Cenhedloedd Unedig (UNDP) mewn partneriaeth â Chymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA). Arweiniwyd y ddirprwyaeth gan Jiko Luveni, llefarydd benywaidd cyntaf Fiji.
- 25 Chwefror: Cyfarfu'r Fonesig Rosemary Butler AC, Llywydd y Cynulliad, â Mr Naoto Kan, cyn-Brif Weinidog Japan. Anerchodd Mr Kan gynulleidfa yn y Pierhead, fel rhan o raglen o ymweliadau mewn partneriaeth â'r Groes Werdd Ryngwladol.
- 26 Chwefror: Ymwelodd Ei Ardderchowgrwydd Mr Andris Teikmanis, Llysgennad Latfia, â'r Cynulliad i amlinellu blaenoriaethau Latfia yng nghyfnod ei Llywyddiaeth o Gyngor yr Undeb Ewropeaidd.
- 17 Mawrth: Cyfarfu'r Fonesig Rosemary Butler AC, Llywydd y Cynulliad, â'i Hardderchowgrwydd Sylvie Bermann, Llysgennad Ffrainc.
- 24 Ebrill: Estynnodd y Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd, groeso i'w Uchelder Brenhinol Dug Caerloyw, a oedd yn ymweld â'r Senedd.
- 27 Ebrill: Cyfarfu David Melding AC, y Dirprwy Lywydd â Mr Patrick Engelberg, Llysgennad Archddugiaeth Lwcsembwrg.
- 5 Mai: Croesawodd y Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd, Mr Mitchel McLaughlin MLA, llefarydd Cynulliad Gogledd Iwerddon, ar ei ymweliad cyntaf â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.
- 13 Mai: Cyfarfu'r Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd, â dirprwyaeth o Senedd Iorddonen fel rhan o raglen ehangach o ddigwyddiadau yn y DU a drefnwyd gan Global Partners Governance.
- 14 Mai: Cynhaliodd y Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd, gyfarfod o Gadeiryddion y Cynulliad â'r pedwar ASE o Gymru a thri o bedwar cynrychiolydd Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau.
- 21 Mai: Cyfarfu David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, a'i Ardderchowgrwydd Mr Lauri Bambus, Llysgennad Estonia.
- 3 Mehefin: Cyfarfu David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, â'i Ardderchowgrwydd Mr Erzhan Kazykhanov, Llysgennad Kazakhstan.
- 10 Mehefin: Cyfarfu'r Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd, â'i Ardderchowgrwydd Mr Rolando Drago, Llysgennad Chile.

Digwyddiadau a Chynadleddau Rhyngwladol yn y Senedd

- 26 Mehefin: Cynhaliodd y Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd, **Seminar Gweithgor Cydraddoldeb Rhywiol CALRE** yn y Senedd gyda chyfranogwyr o Seneddau Fflandrys, Galisia, Walwnia, Ffederasiwn Wallonie-Bruxells ac Åland. Canolbwyntiodd y Seminar ar “Gwella Cyfranogiad Merched mewn Democratiaeth”. Gellir gweld fideo o’r Seminar **yma**.
- 29 Mehefin: Cynhaliodd y Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd, ddigwyddiad yn y Senedd, yng nghwmni Ei Hardderchowgrwydd Alicia Castro, Llysgennad yr Ariannin. Yn y derbyniad, cafwyd lansiad swyddogol o arddangosfa ffotograffig a gomisiynwyd yn arbennig gan Lysgenhadaeth yr Ariannin i ddatlu **150 mlwyddiant y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia**.
- 8 Gorffennaf: yn y Senedd, cynhaliodd y Cynulliad Wasanaeth Coffa Srebrenica a noddwyd gan David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, a chan Carwyn Jones AC, y Prif Weinidog.

Lincs

- Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Hysbysiad Busnes y Cynulliad
- Tudalennau'r pwyllgorau
- Tudalennau'r Gwasanaeth Ymchwil

I gael rhagor o wybodaeth:

Cyswlltwch â:

Gregg Jones, Pennaeth Swyddfa'r UE (Gregg.Jones@Cynulliad.Cymru)

National Assembly for Wales EU Office

Wales House

6th Floor

Rond Point Schuman 11

1040 Brussels

Belgium

Ffôn 0032 2 226 66 92

Symudol 0044 781 616 4455

Dilynwch ni ar Twitter: [@SeneddEurope](https://twitter.com/SeneddEurope)

Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tŷ Hywel (Pedwerydd llawr)

Bae Caerdydd

Caerdydd CF99 1NA

0044 (0)300 200 6255 / 6256

TimRhyngwladol@Cynulliad.Cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn o ddiddordeb i chi. Os nad ydych am dderbyn copïau o'r cylchlythyr hwn yn y dyfodol, neu os nad ydych wedi derbyn y cylchlythyr hwn yn uniongyrchol ac yr hoffech ychwanegu eich enw at y rhestr bostio, cysylltwch â Gregg Jones drwy e-bost.